**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Papur ymchwil

# Crynodeb o Fil: Bil Sector Amaethyddol (Cymru)

Gorffennaf 2013

Y Gwasanaeth Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn darparu ymchwil a gwybodaeth arbenigol a ddiduedd er mwyn cefnogi Aelodau a phwyllgorau'r Cynulliad i gyflawni swyddogaethau craffu, deddfwriaethol a chynrychioliadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosibl rhoi cyngor i'r cyhoedd. Croesawn sylwadau ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallwch eu hanfon i'r cyfeiriad post neu e-bost isod.

Gellir cael gafael ar fersiwn electronig o'r papur ar safle'r Cynulliad Cenedlaethol yn: www.cynulliadcymru.org/research

Mae copïau printiedig hefyd ar gael:

Y Gwasanaeth Ymchwil
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

E-bost: Research.Service@wales.gov.uk
Twitter: @YmchwilCCC

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2013
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Rhif ymholiad: 13/1715
Rhif dogfen:13 /049

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Papur ymchwil

# Crynodeb o Fil: Bil Sector Amaethyddol (Cymru)

Gorffennaf 2013

Nia Seaton, Martin Jennings and Owain Roberts

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o Fil Sector Amaethyddol (Cymru) 2013 Llywodraeth Cymru. Mae'n cynnwys crynodeb o'r cefndir polisi a darpariaethau'r Bil, yn ystyried goblygiadau ariannol posibl ac yn nodi'r newidiadau allweddol a gynigir i'r drefn statudol bresennol ar gyfer cyflogau amaethyddol.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Y Gwasanaeth Ymchwil

# Cynnwys


**1. Cyflwyniad ..... 1**

**2. Cefndir ..... 2**

2.1. Bwrdd Cyflogau Amaethyddol Cymru a Lloegr ..... 2
2.2. Yr aelodaeth bresennol ..... 3
2.3. Gorfodi a chydymffurfio ..... 3

**3. Llinell amser ..... 4**

3.1. Adolygiadau blaenorol ..... 4
3.2. Ymgynghoriad Defra ar ddyfodol yr AWB ..... 4
3.3. Diddymu'r AWB ..... 5
3.4. Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ..... 6
3.5. Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol 2012 ..... 7
3.6. Effaith gyfreithiol diddymu'r AWB ar weithwyr presennol ..... 8

**4. Y Bil ..... 9**

4.1. Nodau ac amcanion polisi ..... 9
4.2. Darpariaethau ..... 10
4.3. Gweithredu ac adolygu ..... 12

**5. Goblygiadau ariannol ac Asesiad Effaith ..... 12**

5.1. Opsiwn 1 ..... 13
5.2. Opsiwn 2 ..... 14
5.3. Opsiwn 3 ..... 17

**6. Y gwahaniaethau rhwng y Bil a Deddf Cyflogau Amaethyddol 1948 ..... 18**

6.1. Y pŵer i bennu Cyfraddau Cyflog ..... 18
6.2. Ymgynghori ..... 19

# Crynodeb o Fil: Bil Sector Amaethyddol (Cymru)

## 1. Cyflwyniad

**Dyddiad cyflwyno:** 8 Gorffennaf 2013

**Yr Aelod sy'n gyfrifol:** Alun Davies AC, Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd

**Dadl cyfnod 1:** 9 Gorffennaf 2013

**Trafodion cyfnod 2 (Pwyllgor y Cynulliad Cyfan):** 19 Gorffennaf 2013

**Trafodion cyfnodau 3 a 4:** 17 Gorffennaf 2013

Cyflwynwyd *Bil Sector Amaethyddol (Cymru)* gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd, Alun Davies AC, ar **8 Gorffennaf 2013**.

Bil galluogi yw hwn yn bennaf sy'n dirprwyo nifer o bwerau i Weinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth yn ddiweddarach. Yn benodol, mae'n:

- rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud **Gorchmynion Cyflogau Amaethyddol**, pŵer a roddwyd i Fwrdd Cyflogau Amaethyddol Cymru a Lloegr cyn hyn.
- rhoi pŵer i Weinidogion Cymru sefydlu **Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth Cymru**, sy'n banel newydd, i gyflawni swyddogaethau fel hybu gyrfaoedd mewn amaethyddiaeth, cynghori Gweinidogion Cymru ar gynnwys Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol a materion eraill yn ymwneud â'r sector amaethyddol; a
- galluogi Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth Cymru i gyflawni swyddogaethau, sydd i'w pennu gan Weinidogion Cymru, yn ymwneud â gweithrediad y sector amaethyddol, gan gynnwys hybu gyrfaoedd mewn amaethyddiaeth a gwneud argymhellion i Weinidogion Cymru i nodi'r telerau a'r amodau sylfaenol.

Yn ôl y Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil 'nid amcan y polisi yw ail-greu AWB Cymru a Lloegr ond creu mecanwaith fodern ac effeithiol i wireddu dyheadau Llywodraeth Cymru ar gyfer y sector'.[1]

Yn dilyn pleidlais ar gynnig ar 2 Gorffennaf, mae'r Cynulliad wedi cytuno y dylai'r Bil gael ei drin fel **Bil Brys**, sy'n cynnwys proses ddeddfwriaethol lawer byrrach.[2]

---

[1] Llywodraeth Cymru, *Bil Sector Amaethyddol (Cymru), Memorandwm Esboniadol gan gynnwys Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol*, Gorffennaf 2013, paragraff 15

[2] Mae rhagor o wybodaeth am y Biliau Brys yn **Hysbysiad Hwylus: Biliau Brys** y Gwasanaeth Ymchwil

## 2. Cefndir

### *2.1. Bwrdd Cyflogau Amaethyddol Cymru a Lloegr*

Sefydlwyd Bwrdd Cyflogau Amaethyddol ('AWB') Cymru a Lloegr o dan *Ddeddf Cyflogau Amaethyddol 1948* ('Deddf 1948).[3] Diben yr AWB oedd bod yn fforwm annibynnol ar gyfer negodiadau ar gyflogau amaethyddol rhwng cyflogwyr a chyflogeion heb orfod cynnwys Gweinidogion.

Mae Deddf 1948 yn rhoi'r pŵer i'r AWB gyhoeddi Gorchymyn ('Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol') sy'n pennu'r cyfraddau cyflog isaf a thelerau ac amodau ar gyfer gweithwyr amaethyddol yng Nghymru a Lloegr. Cyhoeddir y Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol ym mis Hydref bob blwyddyn.

Yn wahanol i'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol mae'r **Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol** yn pennu cyflog ar chwe gradd wahanol. Mae'r radd a delir i weithiwr amaethyddol yn dibynnu ar sgiliau a chymwysterau'r gweithiwr. Ni all y cyfraddau isaf a bennir gan yr AWB fod yn is na'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol, sydd ond yn gallu cael ei bennu gan Lywodraeth y DU.

Yn ogystal â phennu graddau cyflog, gall y Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol wneud darpariaethau mewn perthynas â thelerau ac amodau eraill ar gyfer gweithwyr amaethyddol gan gynnwys:

- tâl gwyliau;
- tâl salwch;
- cyfraddau goramser a chyfraddau ar gyfer darnau o waith;
- cyfraddau prentisiaeth;
- lwfans ci gwaith; a
- lwfans profedigaeth.

Roedd Deddf 1948 yn ei gwneud yn ofynnol i'r AWB gyhoeddi ei gynigion ar gyfer Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol ar ffurf drafft a chaniatáu o leiaf 14 niwrnod i sylwadau gael eu gwneud i'r AWB ar gynnwys ei gynigion. Yna roedd yn ofynnol i'r AWB ystyried unrhyw sylwadau a phenderfynu a fyddai'n diwygio'r Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol ynteu ei fabwysiadu fel y'i cynigiwyd.

[3] *Deddf Cyflogau Amaethyddol 1948* (Pennod47)

Nododd Deddf 1948 fod darpariaethau'r Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol yn berthnasol i unrhyw ddyn, menyw, bachgen neu ferch sy'n gwneud gwaith amaethyddol. Diffinnir amaethyddiaeth yn y Ddeddf fel a ganlyn:

> including dairy-farming, the production of any consumable produce which is grown for sale or for consumption or other use for the purposes of a trade or business or of any other undertaking (whether carried on for profit or not), and the use of land as grazing, meadow or pasture land or orchard or osier land or woodland or for market gardens or nursery grounds.[4]

## *2.2. Yr aelodaeth bresennol*

Cyn ei diddymu, roedd Deddf 1948 yn ei gwneud yn ofynnol i'r AWB gynnwys wyth cynrychiolydd wedi'u henwebu gan Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (NFU), wyth cynrychiolydd sy'n weithwyr wedi'u henwebu gan yr undeb llafur Unite a hyd at bum aelod annibynnol wedi'u penodi ar y cyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru, gan gynnwys Cadeirydd yr AWB.

## *2.3. Gorfodi a chydymffurfio*

Caniataodd Deddf 1948 i'r AWB benodi swyddogion yng Nghymru a Lloegr i oruchwylio'r gwaith o orfodi'r Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol. Yng Nghymru, swyddogion o Arolygiaeth Wledig Cymru a oedd yn gyfrifol am ymchwilio i gwynion gan weithwyr. Dim ond mewn ymateb i gŵyn benodol y cynhaliwyd ymchwiliad.

Lle y tybiwyd bod honiad o beidio â chydymffurfio yn ddilys yna gallai Tîm Cyflogau Amaethyddol Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) y DU gymryd camau gorfodi ar ran gweithiwr os na chymerodd y cyflogwr unrhyw gamau i'w ad-dalu.

---

[4] Ibid, Adran 17

# 3. Llinell amser

## *3.1. Adolygiadau blaenorol*

Er bod nifer o bwyllgorau cyflogau eraill wedi'u diddymu yn **1993** o dan *Ddeddf Diwygio Undebau Llafur a Hawliau Cyflogaeth 1993,*[5] nid oedd yr AWB o fewn cwmpas y ddeddf honno. Fodd bynnag, cwblhawyd adolygiad o'r system statudol ar gyfer cyflogau amaethyddol isaf ar y pryd, ac roedd mwyafrif yr ymatebwyr o blaid cadw swyddogaethau'r AWB.

Yn **1999** cynhaliodd Gweinyddiaeth Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd y DU ac Adran Amaethyddiaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru fel yr oedd bryd hynny adolygiad o'r *sail resymegol dros gyflog statudol a rheolaethau eraill mewn amaethyddiaeth a garddwriaeth yn y dyfodol*.[6] Roedd yr adolygiad yn cynnwys ystyriaeth o swyddogaethau'r AWB a'r Pwyllgorau Cyflogau Amaethyddol.

## *3.2. Ymgynghoriad Defra ar ddyfodol yr AWB*

Ym mis **Gorffennaf 2010**, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig, y Gwir Anrhydeddus Caroline Spelman AS, y byddai'n ceisio dod i gytundeb â Llywodraeth Cymru i ddiddymu'r AWB.[7]

Dilynwyd hyn ym mis **Hydref 2012** gan ymgynghoriad ar ddyfodol yr AWB yng Nghymru a Lloegr a gyhoeddwyd gan Defra.[8] Nododd y ddogfen ymgynghori fod yr AWB yn deillio o oes pan oedd natur ynysig a disymud gweithwyr fferm yn golygu eu bod mewn sefyllfa gymharol wan i fargeinio ond nad yw hynny'n wir bellach. Daeth i'r casgliad canlynol:

> the Agricultural Wages Board and agricultural minimum wage:
>
> - adds to the administrative and regulatory burden on farm businesses, which dissuades farmers from employing workers;
> - is no longer needed because of improved employment protection for all workers;
> - hinders the development of growth and opportunities within the industry;
> - inhibits the use of modern employment practices; and
> - restricts the ability of employers and workers to come to their own agreements.
>
> Therefore the UK Government **believes it is in the interests of the future prosperity of the agriculture industry for the Agricultural Wages Board and agricultural minimum wage regime to be abolished** *[pwyslais y Gwasanaeth Ymchwil]*.[9]

---

[5] *Deddf Diwygio Undebau Llafur a Hawliau Cyflogaeth 1993* Pennod 19 [fel ar 25 Mehefin 2013]
[6] Y Weinyddiaeth Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd ac Adran Amaethyddiaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *Agricultural Pay and Conditions: The Future Rationale for Statutory Wage and Other Controls in Agriculture & Horticulture and the Operations of the Agricultural Wages Board and the Agricultural Wage Committees*, Rhagfyr 1999 (copi papur)
[7] Defra, Caroline Spellman, (Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylcehdd, Bwyd a Materion Gwledig), *Defra's arms length bodies*, Datganiad Ysgrifenedig 22 Gorffennaf 2010 [fel ar 26 Mehefin 2013]
[8] Defra, *The future of the Agricultural Wages Board for England and Wales, Agricultural Wage Committee and Agricultural Dwelling House Advisory Committees England*, Hydref 2012 [fel ar 26 Mehefin 2013]
[9] Defra, *The future of the Agricultural Wages Board for England and Wales, Agricultural Wage Committee and Agricultural Dwelling House Advisory Committees England*, Hydref 2012

Yn yr ymgynghoriad gofynnodd Defra hefyd am farn ar gynigion i ddiddymu'r AWB a chynnwys gweithwyr amaethyddol yn narpariaethau'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol a'r Rheoliadau Oriau Gwaith.

### *3.3. Diddymu'r AWB*

Ar ôl ymgynghori, cyhoeddodd Defra ym **mis Rhagfyr 2012** y byddai'n mynd ati i ddiddymu'r AWB drwy'r *Bil Menter a Diwygio Rheoleiddio*, a oedd ar ei daith drwy Senedd y DU ar y pryd. I'r perwyl hwn, cyflwynwyd gwelliannau wedi'u hanelu at ddiddymu'r AWB gan Lywodraeth y DU ym mis **Ionawr 2013** a chytunwyd arnynt yn ystod Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Arglwyddi.

Yn fuan wedyn, ar **11 Ionawr 2013**, cyflwynodd Llywodraeth Cymru Gynnig Cydsyniad Deddfwriaethol yn y Cynulliad ar y ddarpariaeth yn y Bil sy'n ymwneud â diddymu'r AWB, er gwaethaf barn Llywodraeth y DU eu bod yn ymwneud â meysydd nad ydynt wedi'u datganoli. Amlinellwyd safbwynt Llywodraeth y DU ar y mater gan y Gweinidog Amaethyddiaeth a Bwyd, y Gwir Anrhydeddus David Heath AS, a ddywedodd wrth Dŷ'r Cyffredin ar 16 Hydref 2012:

> It is clear that the **matter is not a devolved one at the moment** … **agriculture is devolved, but wage control is not** *[pwyslais y Gwasanaeth Ymchwil]*. However, that does not stop us having a perfectly sensible dialogue with Welsh colleagues on the subject or stop them having a dialogue with the Wales Office on the constitutional issues.[10]

**Pleidleisiodd y Cynulliad yn erbyn y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar 29 Ionawr 2013 ac, wrth wneud hynny, gwrthododd roi caniatâd i Senedd y DU ddeddfu ar ei ran i ddiddymu swyddogaethau'r AWB yng Nghymru.**[11] Fodd bynnag, gan nad oedd Llywodraeth y DU yn credu bod y darpariaethau'n ymwneud â diddymu'r AWB o fewn pwerau'r Cynulliad, anwybyddwyd dymuniadau'r Cynulliad a chafodd y Bil Gydsyniad Brenhinol a daeth yn gyfraith ar **25 Ebrill 2013.**[12]

Cynhaliwyd sesiwn casglu tystiolaeth ar ddyfodol yr AWB yng Nghymru gan Bwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd y Cynulliad ar **31 Ionawr 2013.**[13]

---

[10] ***Dadl yn Nhŷ'r Cyffredin 16 Hydref 2012*** C23WH
[11] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ***Agenda a Phenderfyniadau'r Cyfarfod Llawn ((109 v5)***, 29 Ionawr 2013
[12] ***Deddf Menter a Diwygio Rheoleiddio 2013*** *Pennod 24*
[13] Mae tystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd i'r sesiwn dystiolaeth a chofnod o'r trafodion ar gael ar dudalen we y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd **yma.**

## *3.4. Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru*

Mewn datganiad llafar i'r cyfarfod llawn ar **30 Ebrill 2013** dywedodd y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd, Alun Davies AC:

> Er bod y Llywodraeth hon yn anghytuno'n gryf â chynigion Llywodraeth y DU i ddileu'r Bwrdd Cyflogau Amaethyddol yng Nghymru a Lloegr, rwyf, serch hynny, yn cydnabod ac yn parchu mandad Llywodraeth San Steffan i gyflwyno ei pholisïau ar gyfer amaethyddiaeth yn Lloegr. Er mwyn gwarchod y sector amaethyddol yng Nghymru, rwyf wedi gofyn ar sawl achlysur i gynllluniau gwreiddiol Llywodraeth y DU i ddiddymu'r Bwrdd o dan Ddeddf Cyrff Cyhoeddus 2011 gynnwys darpariaethau i drosglwyddo swyddogaethau'r Bwrdd i Weinidogion Cymru. Byddai hyn wedi darparu ateb pragmatig a fyddai'n galluogi'r ddwy Lywodraeth i ddilyn eu hagendâu polisi sy'n wahanol ond yn gwbl ddilys.
>
> Roeddwn yn siomedig dros ben pan ddewisodd Llywodraeth y DU, wedi hynny, ddefnyddio'r Bil Menter a Diwygio Rheoleiddio yn lle Deddf Cyrff Cyhoeddus 2011 i gyflwyno darpariaethau i ddiddymu'r Bwrdd Cyflogau Amaethyddol ar gyfer Cymru a Lloegr. Yn fy marn i, nid oedd hyn yn ddim mwy na thacteg i osgoi'r rheidrwydd i gael caniatâd y Cynulliad ar gyfer y camau arfaethedig, fel y byddai wedi bod yn ofynnol o flaen llaw pe byddai Deddf Cyrff Cyhoeddus 2011 wedi cael ei defnyddio. Ni chafodd Llywodraeth Cymru wybod am y newid ymlaen llaw, newid a oedd yn dangos diffyg parch amlwg tuag at y setliad datganoli ac yn ei osgoi.[14]

Dilynwyd datganiad y Gweinidog ar **1 Mai 2013** gan ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru ar ddyfodol y Bwrdd Cyflogau Amaethyddol, y Pwyllgor Cyflogau Amaethyddol a Phwyllgor Cynghori Anhedd-dai Amaethyddol Cymru.[15] Gofynnodd yr ymgynghoriad am farn rhanddeiliaid ar ddyfodol y cyrff yng Nghymru ac a ddylai Llywodraeth Cymru geisio cynnal eu swyddogaethau drwy ddulliau anstatudol. Mewn perthynas â phenderfyniad Llywodraeth y DU i ddiddymu'r AWB, nododd y ddogfen:

> Bydd penderfyniad Llywodraeth y DU i ddiddymu Bwrdd Cyflogau Amaethyddol Cymru a Lloegr yn golygu y bydd gweithwyr amaethyddol Cymru'n dod o dan fframwaith rheoleiddio'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol o fis Hydref 2013 ymlaen. Dim ond rhan o'r amddiffyniad y mae'r Isafwm Cyflog Amaethyddol yn ei warantu i'r sector amaethyddol y bydd yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol yn ei gynnig iddo. Efallai y byddai Llywodraeth Cymru'n hoffi cadw swyddogaethau'r Bwrdd Cyflogau Amaethyddol yng Nghymru, naill ai drwy ddeddfwriaeth neu drwy sefydlu pwyllgor cynghori.[16]

Daeth yr ymgynghoriad i ben ar **26 Mehefin 2013**.

---

[14] Llywodraeth Cymru, Alun Davies (Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd), ***Diddymu'r Cyrff sy'n Gysylltiedig â'r Bwrdd Cyflogau Amaethyddol,*** (Datganiad Llafar), 30 Ebrill 2013

[15] Llywodraeth Cymru, ***Dyfodol y Bwrdd Cyflogau Amaethyddol, y Pwyllgor Cyflogau Amaethyddol a'r Pwyllgor Cynghori Anhedd-dai Amaethyddol yng Nghymru***, Hydref 2013

[16] Ibid

## *3.5. Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol 2012*

Y Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol mwyaf diweddar a wnaethpwyd gan yr AWB yw ***Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru a Lloegr) 2012*** ('Gorchymyn 2012') a ddaeth i rym ar **1 Hydref 2012**.

Yng Ngorchymyn 2012 pennir y gyfradd cyflog ar gyfer gweithwyr amaethyddol Gradd 1 (cyflog) ar £6.21 yr awr, 2 geiniog yn fwy na chyfradd yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol sy'n £6.19 yr awr. Mae'r cyfraddau ar gyfer graddau dilynol yn cynyddu'n raddol i £9.40 ar gyfer gweithiwr Gradd 6.

Mae darpariaethau Gorchymyn 2012 yn berthnasol i bob gweithiwr o oedran ysgol gorfodol neu hŷn. Ar gyfer gweithwyr sy'n iau nag oedran ysgol gorfodol (h.y. y rhai sy'n 16 neu'n iau), y cyflog isaf yw £3.11. Byddai pawb dros 16 oed yn cael cyflog Gradd 1 o leiaf. Dim ond i'r rhai sy'n hŷn nag oedran ysgol gorfodol y mae deddfwriaeth Isafswm Cyflog Cenedlaethol yn berthnasol ac mae'n darparu cyfraddau gwahanol i'r rhai sy'n 16 ac 17 oed, 18 i 20 oed a 21 oed a throsodd.

Mae'r gyfradd cyflog ar gyfer prentisiaethau hefyd yn wahanol o dan y systemau cyflogau amaethyddol ac isafswm cyflog. O dan Orchymyn 2012, mae prentisiaid amaethyddol yn cael £3.57 yn ystod blwyddyn gyntaf eu prentisiaeth. Mae hyn yn cynyddu i £3.68 i brentisiaid yn eu hail flwyddyn sy'n 16 i 17 oed ac i £4.98 i'r rhai rhwng 18 ac 20 oed a £6.21 i'r rhai sy'n 21 oed a throsodd. Yn ystod trydedd flwyddyn prentisiaeth mae pob prentis yn cael cyflog Gradd 1. O dan yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol mae prentisiaid yn cael £2.65 os ydynt o dan 19 oed neu yn ystod blwyddyn gyntaf eu prentisiaeth gan godi i £4.98 i'r rhai dros 19 oed yn ystod ail flwyddyn y brentisiaeth.

Noda Gorchymyn 2012 hefyd y bydd gweithwyr amaethyddol sy'n gweithio wythnos waith arferol yn cael 31 diwrnod o wyliau blynyddol ac mae gan weithwyr eraill hawl i isafswm o 28 diwrnod. Rhoddir uchafswm o 38 niwrnod i weithwyr amaethyddol sy'n gweithio mwy na chwe niwrnod yr wythnos ond ni wneir unrhyw ddarpariaeth ychwanegol mewn deddfwriaeth i weithwyr eraill.

Mae Gorchymyn 2012 yn cynnwys cyfraddau penodol ar gyfer goramser lle na chaiff unrhyw ddarpariaeth benodol ei gwneud am oramser o dan yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol.

## *3.6. Effaith gyfreithiol diddymu'r AWB ar weithwyr presennol*

**Oni chaiff telerau newydd eu negodi rhwng y partion, bydd tâl ac amodau gweithwyr amaethyddol yng Nghymru yn aros ar y lefel a bennwyd yng Ngorchymyn 2012, hyd yn oed ar ôl iddo ddod i ben ar 1af Hydref 2013.** Mae hyn yn fater o gyfraith contract a chaiff ei ategu gan ddarpariaethau arbedion yn *Neddf Menter a Diwygio Rheoleiddio 2013*.[17]

Byddai ymgais gan gyflogwr i orfodi newid i delerau contract, er anfantais i'r cyflogai, yn golygu torri contract a gallai hefyd arwain at hawliad o ddiswyddo annheg neu ddeongliadol. Yn yr un modd, gallai dirwyn contractau presennol i ben a'u disodli â chontractau llai ffafriol arwain at hawliadau o ddiswyddo annheg, ar yr amod bod y gweithwyr yn bodloni'r cyfnod cyflogaeth cymwys lleiaf, sef 1 flwyddyn i weithwyr cyn 6ed Ebrill 2012 a 2 flynedd ar ôl hynny.

Bydd angen i gyflogwyr ystyried deddfwriaeth cyflogaeth ehangach hefyd a'r posibilrwydd o hawliadau am wahaniaethu os byddant yn talu cyfraddau gwahanol am yr un gwaith, heb gyfiawnhad gwrthrychol.

**Mae'r effaith gyfreithiol fwyaf felly yn debygol o fod ar newydd-ddyfodiaid i'r sector, gweithwyr achlysurol a'r rhai ar gontractau tymor byr. Cydnabu asesiad effaith Defra o ddiddymu'r AWB hyn ac ym marn Defra, ni fyddai darpariaethau'r Gorchymyn yn berthnasol i unrhyw weithiwr achlysurol o fewn 12 mis i'w ddiddymu.**

---

[17] *Deddf Menter a Diwygio Rheoleiddio 2013* Pennod 24 [fel ar 26 Mehefin 2013]

# 4. Y Bil

## *4.1. Nodau ac amcanion polisi*

Yn ôl y Memorandwm Esboniadol, nod y Bil yw gwarchod y lefelau presennol o amddiffyniad statudol sydd yng ***Ngorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru a Lloegr) 2012*** ('Gorchymyn 2012') a fyddai, heb y Bil hwn, yn dod i ben ar **1 Hydref 2013.** Fodd bynnag, mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol y Memorandwm Esboniadol yn cydnabod y bydd hawliau gweithwyr sydd wedi'u cronni o dan gontractau a fydd yn bodoli yr adeg y daw'r Gorchymyn i ben yn parhau mewn grym nes y caiff y contractau hynny eu hailnegodi.

Mae'r Bil yn cadw'r lefelau o amddiffyniad statudol a bennir yng Ngorchymyn 2012 nes y bydd Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi Gorchymyn newydd o dan Adran 3 o'r Bil. Yn ogystal, mae'r Bil yn dirprwyo pwerau i Weinidogion Cymru bennu system cyflogau amaethyddol newydd i Gymru, os dewisant wneud hynny. Yn benodol, mae'n:

- rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud Gorchmynion Cyflogau Amaethyddol yn y dyfodol - pŵer a roddwyd i'r AWB cyn hyn.
- rhoi pŵer i Weinidogion Cymru sefydlu Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth Cymru, sy'n banel newydd, i gyflawni swyddogaethau megis hybu gyrfaoedd mewn amaethyddiaeth, cynghori Gweinidogion Cymru ar gynnwys Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol a materion eraill yn ymwneud â'r sector amaethyddol;
- galluogi Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth Cymru i gyflawni swyddogaethau'n ymwneud â gweithrediad y sector amaethyddol, gan gynnwys hybu gyrfaoedd mewn amaethyddiaeth a gwneud argymhellion i Weinidogion Cymru i nodi'r telerau a'r amodau sylfaenol. Mae'r swyddogaethau hyn yn llawer ehangach na'r rhai a roddwyd i'r AWB gan Ddeddf 1948.

Noda'r Memorandwm Esboniadol hefyd fod gan y Bil nod hirdymor o hyrwyddo uwchsgilio yn y sector amaethyddiaeth ar y cyd ag amcanion cyffredinol agenda 'Hwyluso'r Drefn' Llywodraeth Cymru o ran darparu gweithwyr sydd wedi'u hyfforddi'n dda a busnesau fferm proffesiynol yng Nghymru, gan gyfrannu at economi fwy ffyniannus ac arloesol.

Noda'r Memorandwm Esboniadol 'Nid amcan y polisi yw ail-greu AWB Cymru a Lloegr ond creu mecanwaith fodern ac effeithiol i wireddu dyheadau Llywodraeth Cymru ar gyfer y sector'.[18]

---

[18]Llywodraeth Cymru, *Bil Sector Amaethyddol (Cymru), Memorandwm Esboniadol gan gynnwys Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol*, Gorffennaf 2013, paragraff 15

## *4.2. Darpariaethau*

**Bil fframwaith yw'r Bil hwn yn bennaf sy'n dirprwyo nifer o bwerau i Weinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth yn ddiweddarach. Mae'n cynnwys 16 o adrannau ac nid oes ynddo ddim Atodlenni.** Rhoddir crynodeb o'r rhain isod.

Mae **adran 1 (Trosolwg)** yn rhoi trosolwg cryno o'r Bil, ac ni fwriedir i'r adran hon gael unrhyw effaith gyfreithiol.

Mae **adran 2 (Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth Cymru)** yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru sefydlu Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth Cymru, penodi aelodau iddo a phennu ei swyddogaethau drwy orchymyn sy'n amodol ar y **broses gadarnhaol**. Cyn sefydlu a phenodi'r panel, mae'r Adran hon yn ei gwneud yn ofynnnol i Weinidogion Cymru ymgynghori ag unrhyw bersonau sy'n briodol yn eu barn hwy.

Mae **adran 3 (Gorchmynion cyflogau amaethyddol)** yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud gorchmynion amaethyddol sy'n pennu'r telerau a'r amodau cyflogaeth isaf ar gyfer gweithwyr amaethyddol yng Nghymru. Yn benodol, gall bennu:

- y cyflogau y mae'n rhaid eu talu i weithwyr amaethyddol (a all amrywio yn ôl cymwysterau a phrofiad y gweithiwr),
- hawl gweithiwr amaethyddol i wyliau y mae'n rhaid eu rhoi iddo,
- telerau ac amodau gwaith eraill sy'n berthnasol i'r sector amaethyddol, megis er enghraifft, ei gwneud yn ofynnol i dalu lwfans i fugail sy'n gorfod cadw ci fel rhan o'i waith.

Bydd gorchmynion o'r fath yn amodol ar y **weithdrefn negyddol**.

Mae **adran 4 (Gorfodi'r cyfraddau isaf)** yn creu system orfodi ar gyfer y darpariaethau sydd yn y gorchmynion amaethyddol sy'n cynnwys y cyfraddau tâl isaf y mae'n rhaid eu talu i weithwyr amaethyddol. Gwna hynny'n bennaf gan ddefnyddio'r drefn (ond gyda rhai newidiadau) a sefydlwyd gan *Ddeddf Isafswm Cyflog Cenedlaethol 1998* ar gyfer sicrhau y cydymffurfir â'r isafswm cyflog cenedlaethol.

Mae **adran 5 (Gorfodi'r hawl i wyliau)** yn ei gwneud yn drosedd i gyflogwr gweithiwr amaethyddol yng Nghymru beidio â chaniatáu i weithiwr gael y gwyliau a nodir mewn gorchymyn cyflogau amaethyddol a noda mai dirwy lefel 3 ar y raddfa safonol (£4000 ar hyn o bryd) yw'r ddirwy y bydd yn rhaid ei thalu o'i gael yn euog.

Mae **Adran 6 (Dyletswydd ar gyflogwyr i gadw cofnodion)** yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr gadw cofnodion am weithwyr. Byddai rheoliadau o'r fath yn amodol ar y **weithdrefn gadarnhaol**.

Mae **adran 7 (Penodi swyddogion**) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru benodi swyddogion i orfodi'r Ddeddf yng Nghymru. **Mae adran 8 (Gwybodaeth a ddaw i feddiant swyddogion)** yn gwneud darpariaeth i ddiogel preifatrwydd y wybodaeth a ddaw i feddiant y swyddogion hynny.

Mae **adran 9 (Ystyr 'yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol')** yn cynnwys diffiniad o'r 'isafswm cyflog cenedlaethol' drwy gyfeirio at *Ddeddf Isafswm Cyflog Cenedlaethol 1998*.

Mae **adran 10 (Diwygio'r Rheoliadau Oriau Gwaith)** yn diwygio'r diffiniad o 'weithiwr a gyflogir mewn amaethyddiaeth' sydd yn *Rheoliadau Oriau Gwaith 1998*.

Mae **adran 11 (Darpariaeth drosiannol)** yn nodi bod Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru a Lloegr) 2012 i gael effaith mewn perthynas â gweithwyr amaethyddol yng Nghymru o 1af Hydref 2013. Daw'r darpariaethau hynny i ben pan fydd Gweinidogion Cymru yn gwneud gorchymyn cyflogau amaethyddol newydd o dan adran 3 o'r Bil neu orchymyn yn dileu darpariaethau Gorchymyn 2012. Bydd gorchymyn sy'n dileu darpariaethau Gorchymyn 2012 yn amodol ar y **weithdrefn negyddol**.

Mae **adran 12 (Troseddau gan gyrff corfforaethol)** yn nodi pan fydd corff corfforaethol wedi troseddu, y gellid cael cyfarwyddwr, rheolwr neu ysgrifennydd neu swyddog tebyg o fewn corff corfforaethol (neu berson sy'n honni ei fod yn dal swydd o'r fath) yn euog o'r drosedd honno a'i gosbi os oedd yn gysylltiedig â chyflawni'r drosedd, yn gwybod amdani (ac wedi gwneud dim) neu y dylai'n rhesymol fod yn gwybod amdani.

Mae **adran 13 (Darpariaeth ategol)** yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud gorchmynion at ddiben rhoi effaith lawn i'r Ddeddf neu mewn cysylltiad â hynny. Bydd gorchmynion o'r fath yn amodol ar y **weithdrefn negyddol** oni fyddant yn gwneud newidiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol ac os felly byddant yn amodol ar y **weithdrefn gadarnhaol**.

Mae **adran 14 (Gorchmynion a rheoliadau**) yn nodi y gall Gweinidogion Cymru arfer eu pwerau i wneud gorchmynion a rheoliadau drwy offeryn statudol.

Mae **adran 15 (Dehongli**), yn rhoi ystyr termau allweddol yn y Ddeddf, gan gynnwys diffiniadau o 'amaethyddiaeth' a 'gweithiwr amaethyddol'.

Mae **adran 16 (Cychwyn)** yn nodi y daw'r Bil i rym ar y diwrnod y caiff Gydsyniad Brenhinol.

## *4.3. Gweithredu ac adolygu*

**Nid yw'r Memorandwm Esboniadol yn rhoi unrhyw fanylion ynghylch pryd y bydd Gweinidogion Cymru yn cyflwyno is-ddeddfwriaeth i weithredu'r Bil.**

## 5. Goblygiadau ariannol ac Asesiad Effaith

Mae Atodiad B y Memorandwm Esboniadol yn cynnwys Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Mae'r Asesiad yn cynnwys tri opsiwn:

- **Opsiwn 1:** Yr opsiwn Gwneud Dim lle y caiff y bwrdd ei ddiddymu ac na wneir darpariaethau eraill i gymryd ei le yng Nghymru.
- **Opsiwn 2:** Yr opsiwn o gyflwyno Bil lle y byddai Gweinidogion Cymru yn cael y pŵer i bennu cyfraddau cyflog a sefydlu Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth os bydd yn dewis gwneud hynny. O dan yr opsiwn hwn byddai darpariaethau Gorchymyn 2012 yn cael eu cynnal nes y bydd Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi Gorchymyn newydd.
- **Opsiwn 3:** Cyflwyno Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth anstatudol i Gymru.

Rhoddir crynodeb o'r costau a'r buddiannau a nodwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer pob opsiwn isod. Fodd bynnag mae'n bwysig nodi bod yr Asesiad Effaith yn dweud **na fu'n bosibl, yn yr amser oedd ar gael, cynnal asesiad manwl o fuddiannau a chostau'r gwahanol opsiynau i fusnesau fferm. Nid yw'r Asesiad Effaith felly'n dod i gasgliad.**

Noda'r Memorandwm Esboniadol y byddai'n rhaid wrth ymchwil fanwl i strwythur y diwydiant, amodau'r farchnad lafur y cyfraddau cyflog cyfredol ac ymatebion ymddygiadol posibl er mwyn medru cynnal asesiad digonol. Noda fod yr ansicrwydd ynghylch y materion hyn yn golygu nad yw'n bosibl cynnig amcangyfrif da o gostau'r diwydiant ffermio ar hyn o bryd.

Noda Atodiad C o'r Memorandwm Esboniadol y bydd asesiadau effaith eraill yn cael eu cynnal 'os a phan y bydd Llywodraeth Cymru'n ceisio gwneud Gorchmynion o dan adrannau 2, 3 a 13 o'r Ddeddf'.

## *5.1. Opsiwn 1*

Byddai Opsiwn, 1, yr opsiwn 'Gwneud Dim' yn golygu na fyddai dim yn cymryd lle y Bwrdd yng Nghymru ac y byddai gweithwyr yn y sector amaethyddol nad oes ganddynt hawliau wedi'u crynhoi o dan gontractau presennol yn gweithredu o fewn deddfwriaeth isafswm cyflog cenedlaethol a rheoliadau oriau gwaith o 1 Hydref 2013 ymlaen.

Yn ei hanfod amcangyfrifwyd costau a buddiannau'r opsiwn hwn gan Defra yn ei asesiad effaith a oedd yn cyd-fynd â'i hymgynghoriad ar ddiddymu'r Bwrdd a gynhaliwyd ym mis Hydref 2012. Fodd bynnag, mae'n bwysig **nodi nad yw'r ffigurau a gynhwysir yn yr asesiad effaith rheoleiddiol yn dadgyfuno'r ffigurau ar gyfer Cymru.**

Mae asesiad effaith Defra yn seiliedig ar nifer y gweithwyr amaethyddol yng Nghymru a oedd, yn ôl yr asesiad, yn 122,700 gyda 42,405 o'r rheini'n weithwyr achlysurol. Yn ôl Arolwg Amaethyddol a Garddwrol Cymru a gynhaliwyd ym mis Mehefin 2012, mae 13,326 o weithwyr yng Nghymru a Lloegr (tuag 11% o gyfanswm Cymru a Lloegr) a allai gael eu heffeithio yn sgil diddymu'r Bwrdd. O blith y rhain, mae 6,758 yn weithwyr achlysurol.[19]

Yn ôl y ffigurau Amcangyfrif Gorau yn asesiad effaith Defra, byddai gweithwyr amaethyddol yng Nghymru a Lloegr yn colli £259 miliwn dros gyfnod o ddeng mlynedd:

- £149 miliwn mewn taliadau cyflog;
- £4.4 miliwn mewn tâl salwch; ac
- £83.8 miliwn mewn gwyliau blynyddol.

Os yw oddeutu 10% o'r gweithwyr y mae diddymu'r Bwrdd yn effeithio arnynt yn byw yng Nghymru, byddai cymhwyso'r gyfran hon o amcangyfrif Defra yn awgrymu y gallai gweithwyr yng Nghymru golli rhwng £20 miliwn a £30 miliwn dros gyfnod o ddeng mlynedd.

Byddai'r gweithwyr fferm hynny â chontractau sy'n bodoli eisoes yn cadw eu hawliau contract nes y daw'r amser i ailnegodi'r contractau.

Noda Llywodraeth Cymru y byddai buddiannau i ffermwyr yn sgil llai o faich gweinyddol a'r potensial i dalu cyflogau is. Ni chaiff maint y buddiannau hyn eu nodi. Byddai Llywodraeth Cymru yn gwneud arbedion yn sgil peidio â gorfod ariannu gwaith Bwrdd.

---

[19] Datganiad Ystadegol Llywodraeth Cymru, *Arolwg Amaethyddol a Garddwrol, Mehefin 2012*, Tachwedd 2012 [fel ar 26 Mehefin 2013]

### *5.2. Opsiwn 2*

Noda opsiwn 2 effeithiau a goblygiadau ariannol y cynigion sydd yn y Bil.

## *Y Costau a'r Buddiannau i Ffermwyr*

Fel y nodir yn yr adran flaenorol, nid yw'r Asesiad Effaith yn mesur y costau a'r buddiannau i ffermwyr ond yn hytrach rhoddir disgrifiad o'r costau a'r buddiannau posibl. Bydd unrhyw gostau ychwanegol i fusnes fferm yn dibynnu ar nifer y newydd-ddyfodiaid a'r gweithwyr presennol hynny mae angen ailnegodi eu contractau. Bydd yr union gostau'n dibynnu ar y lefelau cyflog a thelerau ac amodau eraill a bennir gan Weinidogion Cymru o gymharu â'r lefelau y byddai'n rhaid i ffermwyr fod wedi'u talu o dan yr isafswm cyflog cenedlaethol a'r rheoliadau oriau gwaith. Heb wybod y cyfraddau cyflog a'r telerau ac amodau eraill a fyddai'n cael eu pennu, nid yw'n bosibl amcangyfrif beth fyddai'r costau ychwanegol hyn i ffermwyr. Gallai'r costau ychwanegol i ffermwyr gael eu gwrthbwyso gan gynhyrchiant uwch gan weithwyr fferm. Nid ymhelaethir ar y posibilrwydd hwn ac ni nodir maint yr effaith negyddol hon.

Noda Atodiad C o'r Memorandwm Esboniadol ar asesiadau effaith penodol y gallai cyflwyno gwahanol ofynion statudol yng Nghymru a Lloegr beri anawsterau i ffermydd sydd bob ochr i'r ffin. Nid yw'r Asesiad effaith yn nodi'n fanwl beth allai'r anawsterau hyn fod na'r costau posibl i fusnesau fferm. Noda paragraff 22 o'r Memorandwm Esboniadol fod y gost weinyddol i fusnes fferm yn sgil gorfod deall y ddeddfwriaeth newydd hon yn debygol o fod yn £11.89 sy'n cyfateb ag un awr o waith i weithiwr fferm. Nid yw'r Asesiad Effaith yn nodi pam y dewiswyd y ffigur un awr nac a fyddai angen rhagor o amser ar gyfer busnesau fferm sy'n gweithredu o dan ddwy system wahanol. Yn ogystal, noda'r Asesiad Effaith fod angen dadansoddiad pellach i bennu nifer y busnesau fferm sy'n cyflogi gweithwyr amaethyddol er mwyn cyfrifo cyfanswm y gost weinyddol.

Noda Atodiad C y gall fod effaith negyddol ar allu busnesau fferm yng Nghymru i gystadlu o gymharu â busnesau fferm yn Lloegr. Gallai'r gostyngiad mewn cyflogau a all ddeillio o ddiddymu'r Bwrdd yn Lloegr wneud busnesau fferm yn Lloegr yn fwy cystadleuol yn yr hirdymor. Nid ymhelaethir ar y posibilrwydd hwn ac ni nodir maint yr effaith negyddol hon.

## *Y costau a'r buddiannau i Lywodraeth Cymru*

Noda'r Asesiad Effaith nifer o gostau gwahanol i Lywodraeth Cymru, a rhoddir crynodeb ohonynt isod:

**Tabl - Crynodeb o'r costau yn sgil cymharu'r opsiynau sydd yn y Memorandwm Esboniadol o gymharu ag Opsiwn 1, sef y sefyllfa fel y mae**

| | Opsiwn 2 | Opsiwn 3 |
|---|---|---|
| **Costau trosiannol** | | |
| *Llywodraeth Cymru* | | |
| Hysbysu rhanddeiliaid | £5,000 | £5,000 |
| Hyfforddi arolygwyr | £2,500 | DdG |
| ***Cyfanswm - Llywodraeth Cymru*** | **£7,500** | **£5,000** |
| *Busnesau a gweithwyr fferm* | | |
| Ni fu'n bosibl cynnal dadansoddiad manwl o gost y cynigion i fusnesau fferm | | |
| **Cyfanswm y costau trosiannol** | **Ddim yn hysbys** | **Ddim yn hysbys** |
| **Costau blynyddol** | | |
| *Llywodraeth Cymru - staff* | | |
| Arolygwyr | £37,590 | DdG |
| Cefnogi'r panel cynghori | £57,850 | £57,850 |
| Gwasanaethau cyfreithiol | £50,000 | DdG |
| ***Cyfanswm - staff Llywodraeth Cymru*** | **£145,450** | **£57,850** |
| Y panel cynghori ar amaethyddiaeth | £25,000 | £25,000 |
| ***Cyfanswm - Llywodraeth Cymru*** | **£170,440** | **£82,850** |
| *Busnesau a gweithwyr fferm* | | |
| Ni fu'n bosibl cynnal dadansoddiad manwl o gost y cynigion i fusnesau fferm | | |
| **Cyfanswm y costau blynyddol** | **Ddim yn hysbys** | **Ddim yn hysbys** |

Noder: Noda'r Memorandwm Esboniadol 'yn yr amser oedd gennym, ni fu'n bosibl cynnal asesiad manwl o fuddiannau a chostau.' Bydd y costau i fusnesau a gweithwyr fferm yn dibynnu ar Orchmynion a wneir gan Lywodraeth Cymru y darperir Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar eu cyfer.

Yn ogystal, noda'r Memorandwm Esboniadol y byddai'r costau gweinyddol i fusnesau yn £11.89 fesul gweithiwr, a bod angen dadansoddiad pellach i bennu nifer y busnesau fferm sy'n cyflogi gweithwyr amaethyddol a pha mor aml y byddai'r costau gweinyddol hyn yn codi. Felly nid oes costau trosiannol na chostau parhaus wedi'u cynnwys yn y tabl uchod.

DdG - ddim yn berthnasol i'r opsiwn hwn.

Noda'r Asesiad nifer o gostau 'untro' a nifer o gostau parhaus. Mae'r costau 'untro' yn cynnwys £5,000 ar gyfer ymarfer cyfathrebu i hysbysu busnesau a gweithwyr fferm am y newidiadau, a £2,500 i hyfforddi arolygwyr i orfodi'r system reoleiddio newydd.

Mae'r costau parhaus yn cynnwys:

- £37,600 y flwyddyn ar gyfer tîm o chwe arolygydd, 1.2 aelod o staff cyfwerth ag amser llawn;
- £58,000 y flwyddyn mewn costau staff i gefnogi gwaith Panel Cynghori Amaethyddol os caiff ei greu, i baratoi Gorchmynion a staffio llinell gymorth i fusnesau fferm a gweithwyr amaethyddol, 1.6 aelod o staff cyfwerth ag amser llawn;
- £50,000 y flwyddyn mewn costau ychwanegol i'r tîm Gwasanaethau Cyfreithiol yn Llywodraeth Cymru yn sgil drafftio is-ddeddfwriaeth ac ymateb i ymholiadau cyfreithiol ad hoc; a
- £25,000 y flwyddyn mewn costau ymbresenoli, teithio a chynhaliaeth a lletygarwch ar gyfer y Panel Cynghori Amaethyddol os caiff ei sefydlu.

Noda'r Asesiad Effaith 'nid yw'n bosibl cynnig ffigurau union ar gyfer y Panel ei hun na chwaith faint o staff fydd ei angen' ac nid yw'n glir ar faint o aelodau o'r Panel y seiliwyd y ffigur £25,000. Rhoddir y pwerau i Weinidogion Cymru bennu drwy Orchymyn o dan Adran 2 faint o Aelodau a fydd yn eistedd ar y Panel arfaethedig. Nodwyd costau staff parhaus ar sail y swm a wariwyd gan Lywodraeth yr Alban ar redeg Bwrdd Cyflogau Amaethyddol yr Alban. Nid yw'r Asesiad Effaith yn amlinellu pam y dewiswyd model yr Alban fel model i gymharu ag ef na sut y gall model Cymru fod yn wahanol i'r model hwn.

Nid ymddengys fod yr Asesiad Effaith yn nodi faint fyddai'r costau cyfathrebu parhaus i Lywodraeth Cymru yn sgil cyhoeddi Gorchmynion newydd a hysbysu busnesau fferm a gweithwyr am unrhyw newidiadau y tu hwnt i'r costau o ran amser staff.

## *Y Costau a'r Buddiannau Ehangach*

Noda'r Asesiad Effaith nifer o gostau a buddiannau ehangach gan gynnwys y costau a'r buddiannau i weithwyr amaethyddol. Ymysg y buddiannau a nodwyd i weithwyr mae cynnal a chadw'r cyfraddau cyflog a'r telerau ac amodau presennol. Nodir buddiannau penodol i weithwyr ifanc o oedran ysgol gorfodol gan fod Gorchmynion presennol a bennir gan y Bwrdd yn cynnwys cyfraddau cyflog uwch i'r gweithwyr hyn. Gallai strwythur graddio fod yn gymhelliad i weithwyr ddilyn cyrsiau hyfforddi a datblygu. Ni chaiff y buddiannau hyn eu mesur a noda'r asesiad y dylid nodi 'bod sectorau eraill yr economi'n gweithredu'n effeithiol heb drefn sectorol ar gyfer pennu isafswm cyflog'. Dengys Tabl 1 o'r Asesiad Effaith fod tystiolaeth bod hyn yn digwydd yn y diwydiant amaethyddol.

O ran costau ehangach, awgryma theori economaidd y gallai pennu lefel cyflog sy'n uwch na lefel y farchnad arwain at leihad yn y nifer a gyflogir. Noda asesiad effaith Defra fod y Bwrdd blaenorol ar gyfer Cymru a Lloegr wedi lleihau cyflogaeth yn y diwydiant rhwng 0.36 a 0.68 y cant.

## *5.3. Opsiwn 3*

Byddai Opsiwn 3 yn sefydlu Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth Cymru a allai roi canllawiau ar arferion gorau i fusnesau fferm ac a fyddai'n dibynnu ar gydymffurfiaeth wirfoddol.

Byddai'r costau i Lywodraeth Cymru yn sgil sefydlu a chefnogi Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth anstatudol yr un fath â chostau Opsiwn 2, sef tua £58,000 y flwyddyn. Yn ogystal, byddai cost drosiannol o tua £5,000 ar gyfer costau cyfathrebu untro. Gallai'r opsiwn hwn leihau costau i fusnesau fferm gan y byddai'n gynllun gwirfoddoli na fyddai'n ofynnol iddynt gydymffurfio ag ef. Mewn perthynas â buddiannau, byddai maint y buddiannau'n dibynnu i ba raddau y byddai busnesau fferm yn cydymffurfio â'r cynllun. Fel gydag Opsiwn 2, ni nodir maint y costau a'r buddiannau.

## 6. Y gwahaniaethau rhwng y Bil a Deddf Cyflogau Amaethyddol 1948

**Mae'r system gyflogau a gynigir gan y Bil yn wahanol i'r fframwaith cyfreithiol blaenorol a ddarperir gan *Ddeddf Cyflogau Amaethyddol 1948* ('Deddf 1948') mewn nifer o ffyrdd.**

Amlinellir rhai o'r meysydd hyn isod.

Mewn perthynas â sefydlu'r Panel a'i gylch gwaith, noda Adran 1 o Ddeddf 1948 y bydd Bwrdd Cyflogau Amaethyddol ar gyfer Cymru a Lloegr yn cael ei sefydlu gan roi dyletswydd benodol ar Weinidogion Cymru i sefydlu Bwrdd.

Mewn gwrthgyferbyniad â hyn, nid yw **Adran 2** o'r Bil Drafft ynddi'i hun yn sefydlu Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth Cymru nac yn rhoi dyletswyddau o'r fath ar Weinidogion Cymru. Yn hytrach mae'n rhoi disgresiwn i Weinidogion Cymru sefydlu **Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth Cymru** drwy orchymyn yn amodol ar y broses gadarnhaol.

Mae'r Bil hefyd yn caniatau dirprwyo swyddogaethau eraill i Banel Cynghori ar Amaethyddiaeth Cymru sy'n cynnwys y canlynol, ond nid yn gyfyngedig i hynny:

- **hybu** gyrfaoedd mewn amaethyddiaeth;
- **cynghori** Gweinidogion Cymru ar gynnwys Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol;
- **cynghori** Gweinidogion Cymru ar unrhyw faterion sy'n ymwneud â'r sector amaethyddiaeth.

Mae'r pwerau hyn yn llawer ehangach na'r rhai a roddwyd i'r AWB, a oedd yn gyffredinol yn gyfyngedig i bennu cyfraddau tâl ac amodau ar gyfer gweithwyr amaethyddol yng Nghymru a Lloegr.

### *6.1. Y pŵer i bennu Cyfraddau Cyflog*

Mae **Adran 3** o'r Bil yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru (ac nid i Banel Cynghori ar Amaethyddiaeth Cymru a gynigir o dan **Adran 2**) i bennu cyfraddau cyflogau amaethyddol a thelerau ac amodau eraill, drwy wneud Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol. Mae'r Gorchymyn hwn yn amodol ar y weithdrefn negyddol ac mae Adran 3 (6) o'r Bil yn nodi bod yn rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â phobl neu gyrff sy'n debygol o fod â buddiant yn y Gorchymyn yn eu barn hwy cyn iddynt wneud y Gorchymyn.

Os bydd y Gweinidog yn sefydlu Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth o dan Adran 2 yna gall y Gweinidog roi swyddogaeth i'r Panel a fyddai'n galluogi i'r Panel roi cyngor i'r Gweinidog ar bwerau sy'n cael eu harfer o dan Adran 3.

Mae hyn yn wahanol i'r sefyllfa yn yr **Alban** ac yng **Ngogledd Iwerddon**, lle ceir byrddau cyflogaeth amaethyddol statudol ar wahân o dan *Ddeddf Cyflogau Amaethyddol yr Alban 1949* a *Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Rheoleiddio)(Gogledd Iwerddon) 1977*. Yn y ddau achos hyn, y byrddau ac nid y llywodraeth sy'n pennu'r cyfraddau cyflog.

Cyn ei diddymu, roedd *Deddf Cyflogau Amaethyddol 1948* ('Deddf 1948') yn rhoi'r pŵer i'r AWB bennu cyfraddau cyflogau, lwfansau gwyliau a thelerau ac amodau cyflogaeth.

Er bod gan Weinidogion Cymru rai pwerau o dan Ddeddf 1948 mewn perthynas â'r AWB, fel pwerau i benodi aelodau annibynnol, **nid oedd ganddynt bwerau i bennu cyfraddau cyflog yn uniongyrchol nac i ymyrryd neu ddiystyru'r cyfraddau cyflog a gynigiwyd gan y Bwrdd.**

## *6.2. Ymgynghori*

Mae Adran 3 o'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r 'personau a'r cyrff hynny sy'n debygol o fod â buddiant yn y gorchymyn yn eu barn hwy' wrth baratoi Gorchmynion Cyflogau Amaethyddol. Noda'r Memorandwm Esboniadol y 'gallai' Llywodraeth Cymru gynnwys undebau'r ffermwyr a chynrychiolwyr eraill y sector, ffermwyr a gweithwyr amaethyddol.

Fodd bynnag, nid yw'r Bil **yn cynnwys unrhyw ddarpariaethau sy'n nodi'r weithdrefn neu'r terfyn amser gofynnol ar gyfer ymgynghori** â rhanddeiliaid. Nid yw'r Bil ychwaith yn nodi sut y dylai Gweinidogion Cymru hysbysu am Orchymyn Cyflogau Amaethyddol neu ymgynghori ar orchymyn o'r fath mewn perthynas â phennu cyflogau.

Mewn gwrthgyferbyniad â hyn, mae'r gofynion ymgynghori ar yr AB, cyn ei ddiddymu, mewn perthynas â Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol yn cael eu nodi yn Neddf 1948. Yn benodol, mae Atodlen 4 yn ei gwneud yn ofynnol i'r AWB:

- Gyhoeddi hysbysiad cyhoeddus yn amlinellu ei gynigion ar gyfer Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol, y terfyn amser ar gyfer gwrthwynebu neu wneud sylwadau a'r dull o wneud hynny;
- Caniatáu o leiaf bedwar niwrnod ar ddeg i gyflwyno gwrthwynebiadau;
- Ystyried unrhyw wrthwynebiadau a wnaethpwyd gan bobl â buddiant yn y Gorchymyn.

Yna gallai'r bwrdd ddewis cyhoeddi Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol neu addasu'r Gorchymyn i ystyried y gwrthwynebiadau. Os byddai'r addasiadau'n sylweddol, mae Deddf 1948 yn caniatáu i'r AWB gyhoeddi hysbysiad aralll yn gofyn am ragor o sylwadau ar ei gynigion diwygiedig yn unol â'r gofynion a amlinellir uchod.